Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council
Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd am 7.30yh Nos Fawrth 15/3/2022 drwy Zoom.
Minutes of the Full Council meeting held at 7.30pm Tuesday 15/3/2022 by Zoom.

Yn Bresennol/Present: Enid Jones, Elfed Jones, Carys Davies, Lowri Jones, Brian Potter, Dafydd Williams, Keith Fitton, Dei Owens, Cyng/Cllr Aled Morris Jones

Wrth Law/In attendance: Carli Evans Thau (Clerc/Clerk), Jane Jones (Hosbis Dewi Sant/St David's Hospice)

Ymddiheuriadau/Apologies: Derek Owen, Vic Ensor, Cyng/Cllr Richard Jones

1 Croeso/Welcome
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Carys Davies a bu croesawu pawb yn bresennol.
Carys Davies chaired the meeting and welcomed all present.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest
Lowri Jones – cynllunio/planning

3 Hosbis Dewi Sant / St David's Hospice
Croesawyd Jane Jones i'r cyfarfod a diolch iddi am ei hamser i ddod i siarad a'r aelodau. Cafwyd grynodeb ganddi o'r hyn mae'r hosbis wedi ei gyflawni dros y 12mis diwethaf ers ei agor ar safle Ysbyty Penrhos yng Nhgaergybi a hefyd y gwasanaethu sydd yn cael eu cynnig gan yr Hosbis.

Cafwyd wybodaeth sut mae ariannu gwasanaethau o'r fath a bod cost blynyddol cynnal yr Hosbis oddeutu £400k, mae llai na 10% yn cael ei ariannu gan y llywodraeth ac mae gofyn codi arian drwy wahanol weithgareddau, loteri, siopau elusen ayyb er mwyn ariannu'r gweddill.

Pwysleidiodd Jane Jones ei bod yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r hyn mae'r hosbis yn ei gynnig yn ogystal a chydweithio gyda ggrwpiau i godi arian tuag at gostau cynnal y gwasanaeth.

Bu diolch i Jane Jones am ei chyflwyniad a bu'r aelodau gydnabod gwaith da yr elusen drwy dynnu ar eu profiadau eu hunain. Bu Jane Jones adael y cyfarfod.

Bu Aled Jones ymddiheuro nad oedd yn gallu aros i weddill y cyfarfod. Bu'r aelodau gymryd y cyfle o ofyn pa gamau oedd CSYM yn eu cymryd i gynnig tai i deuluoedd o Wcrain, bu iddo gytuno cysylltu a Ned Michael, pennaeth yr adran dai am wybodaeth pellach. Cafwyd wybod bod y pwyllgor cyllid wedi trafod tenantiaeth 10 Stryd Fawr ac yn cydnabod byddai angen cefnogaeth ar unrhyw ffoaduriaid – fyddai'r gefnogaeth yna ar gael yn Nghemaes petai angen? Bu cydnabod hefyd bod angen am dai i bobl lleol yn parhau. Bu Lowri Jones hefyd gytuno gwneud ymholiadau. Bu'r Cyngor gytuno symud ymlaen gyda Dafydd Hardy i weld os oedd unrhywun lleol a diddordeb yn y fflat a chadw opsiynnau yn agored.

Bu Aled Jones ddiolch i bawb am eu cydweithrediad a chefnogaeth dros y tymor diwethaf tra yn Gynghorydd ar gyfer Ward Twrcelyn. Bu iddo gadarnhau ei fod yn bwriadau sefyll am dymor arall, a bod Derek Owen hefyd yn sefyll yn aelod annibynnol. Bu iddo atgoffa pawb yn bresennol byddai ganddynt dri pleidlais ar gyfer etholiadau sirol. Diolchwyd i Aled Jones am ei bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor a'i gydweithrediad parod dros y tymor diwethaf a dymuno'r gorau iddo yn yr etholiad.

Jane Jones was welcomed to the meeting and thanked her for her time to come and speak to members. She summarised what the hospice had achieved over the last 12 months since opening at the Penrhos Hospital site in Holyhead and also the services offered by the Hospice.

Information was given on how such services are funded and that the annual cost of running the Hospiceis around £ 400k; less than 10% is government funded and funds need to be raised through various activities, lotteries, charity shops etc to fund the rest.

Jane Jones emphasised that she is trying to raise awareness of what the hospice offers as well as working with groups to raise money towards the running costs of the service.

Jane Jones was thanked for her presentation and members acknowledged the charity's good work by drawing on their own experiences. Jane Jones left the meeting.

***Aled Jones apologised that he could not stay for the remainder of the meeting**. Members took the opportunity to ask what action the IACC was taking to offer housing to Ukrainian families, Aled Jones agreed to contact Ned Michael, head of the housing department for further information. It was reported that the finance committee had discussed the 10 High Street tenancy and acknowledged that any refugees would need support - would that support be available in Cemaes if required? There was been recognition that there is still a need for housing for local people. Lowri Jones also agreed to make inquiries. The Council agreed to move forward with Dafydd Hardy to see if there was any local interest in the flat and to keep options open.*

Aled Jones thanked everyone for their co-operation and support over the past term whilst serving as Councilor for the Twrcelyn Ward. He confirmed that he intended to stand for another term, and that Derek Owen was also standing as an independent member. He reminded everyone present that they would have three votes for county elections. Aled Jones was thanked for his attendance at Council meetings and his willing co-operation over the last term, members wished him well in the election.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf/Minutes of the Last Meeting

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, cynnig Brian Potter, eilio Enid Jones
Minutes of the meeting were approved, proposed Brian Potter, seconded Enid Jones.

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters Arising from the Minutes

Dim/None

6 Diweddariadau/Updates

6.1 Cyllid a Personel/*Finance and Personnel*

Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod diwethaf gan Carys Davies. Mae nifer o'r materion megis gwaith y gofrestrfa tir a'r fynwent yn parhau yn y cefndir. Mae dau o'r di-ffibs yn eu lle bellach a'r llythyrau wedi eu dosbarthu i'r busnesau perthnasol ynglyn a'r bracedi i ddal y fflagiau.

Bu cymeradwyo taliadau a derbyn adroddiad cyllid misol gan y clerc yn ol yr arfer. Trafodwyd gosod fflat 10 Stryd Fawr a chytuno gofyn i Aled Jones am fwy o wybodaeth pa gamau oedd CSYM yn eu cymryd (gweler uchod).

Trafodwyd cais gan Cemaes Bay Nature for All i barhau a peth gwaith ar dir y Cyngor Cymuned cyn ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ni fu gwrthwynebiad mewn egwyddor – y clerc i ddrafftio cytundeb a chynllun syml – Elfed Jones i gysylltu a Jacqui Evans am y wybodaeth berthnasol.

Cadarnhawyd derbyn dogfen gan y Comisiynydd Iaith i'w addasu ar gyfer y Cynllun Iaith y Cyngor, bydd y clerc yn dechrau ar y gwaith hynnu cyn gynted a phosib cyn trefnu cyfarfod arbennig i drafod y ddogfen yn fanwl.

Cyflwynwyd prisiau am dri darn o waith. Derbyniwyd pris D Vogel i baentio'r toiledau a Gray's i gwblhau'r canllaw i lawr tuag at Bonc y Mor. Mae disgwyl cadarnhad gan contractwyr nad ydynt a diddordeb yn y gwaith cyn cymeradwyo cytundeb i blastro cefn 10/12 Stryd Fawr.

Bu'r pwyllgor gytuno cynyddu ffioedd claddu o 1st Ebrill yn unol a ffioedd Llaneilian ac Amlwch i sicrhau cysondeb ar draws yr ardal. Ni fu gwrthwynebiad.

Yn sgil ffioedd bancio newydd, bu'r pwyllgor argymell bod y Cyngor yn rhoi hawl i'r clerc dalu anfonebau ar-lein. Byddai angen iddi wirio'r anfonebau ac anfon rhestr i'r Cadeirydd a Chadeirydd y pwyllgor cyllid am gymeradwyaeth cyn eu talu ar lein. Ni fu gwrthwynebiad.

Carys Davies summarised the last meeting. Many of the issues such as the work of the land registry and the cemetery remain ongoing in the background. Two of the de-fibs are now in place and the letters have been distributed to the relevant businesses regarding the brackets to hold the flags.

Members approved payments and the received the monthly finance report by the clerk as per usual practice. The letting of the 10 High Street flat was discussed and it was agreed to ask Aled Jones for more information on what actions IACC were taking (see above).

An application by Cemaes Bay Nature for All to continue some work on Community Council land before the end of the financial year was discussed. There was no objection in principle - the clerk to draft a simple agreement and plan - Elfed Jones to contact Jacqui Evans for the relevant information.

It was confirmed that a document had been received from the Language Commissioner to adapt it for the Council's Welsh Language Scheme, the clerk would begin this work as soon as possible before arranging a special meeting to discuss the document in detail.

Prices were submitted for three pieces of work. D Vogel's price for painting the toilets and Gray's for completing the guide down towards Bonc y Mor were accepted. Confirmation is awaited from contractors that they are not interested in the work before approving a quote to plaster the rear of 10/12 High Street.

The committee agreed to increase burial fees from 1st April in line with Llaneilian and Amlwch fees to ensure consistency across the area. There were no objections.

Due to new banking fees, the committee recommended that the Council authorise the clerk to pay invoices online. She would need to check the invoices and send a list to the Chair and Chair of the finance committee for approval before paying them online. There were no objections

6.2 Parciau a Mannau Agored/*Parks and Open Spaces*
Cadarnhaodd y clerc bod y pwyllgor wedi cwrdd a bod cofnodion y pwyllgor wedi eu hanfon allan i'r cyngor llawn er gwybodaeth. Ni fu cwestiynnau pellach.

The clerk confirmed that the committee had met and that the minutes of the committee had been sent out to full council for information. There were no further questions.

6.3 Pwyllgor yr Harbwr/*Harbour Committee*
Cafwyd ddiweddariad gan Brian Potter yn dilyn cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Cadarnahwyd bod y Cofnodion wedi eu hanfon allan i'r aelodau er gwybodaeth.

Brian Potter gave an update following the last meeting of the committee. It was confirmed that the Minutes had been sent out to members for information.

6.4 Partneriaeth – Port St Mary Partnership
Cafwyd ddiweddariad gan Lowri Jones drwy ebost wedi'r cyfarfod diwethaf. Bu gytuno gwahodd cynrychiolwyr Ynys Manaw i gyfarfod rhithiol yn fuan, unwaith bydd plant yr ysgol wedi gwneud fideo yn hybu ein hardal.

Bu Keith Fitton ymuno a'r cyfarfod.

Lowri Jones gave an email update after the last meeting. He agreed to invite representatives of the Isle of Man to a virtual meeting soon, once the school children have made a video promoting our area.

Keith Fitton joined the meeting.

6.5 Pwyllgorau Allanol/*External Meetings*
Cafwyd ddiweddariad gan Carys Davies yn dilyn ymweliad i'r ysgol gynradd a bu diolch i'r staff am eu gwaith.

Carys Davies gave an update following a visit to the primary school and thanked the staff for their work.

7 Cynllunio/Planning

7.1 Ceisiadau/*Applications*

Cyflwynwyd y ceisiadau cynllunio canlynol i'w hystyried. Cadarnhaodd y clerc bod y manylion wedi'i hanfon at yr holl aelodau cyn y cyfarfod.

The following planning applications were presented for consideration. The clerk confirmed that the details had been forwarded to all members prior to the meeting.

- Porth Wen (FPL/2022/66) = cefnogi/support
- Hafan Heddwch (HHP/2021/422) – dim gwrthwynebiad/no objection
- Wylfa (FPL/2022/34) – dim gwrthwynebiad/no objection

7.2 Penderfyniadau CSYM/*IACC Decisions*

Rhoddwyd gwybod i aelodau am benderfyniadau a ganlyn yr awdurdod cynllunio:
Members were informed of the planning authority's decisions as follows:

- Wylfa (DEM/2022/2) – dim angen caniatad / no approval required

8 Gwaharddiadau Parcio Arfaethiedig / Proposed Parking Restrictions

Roedd y pwyllgor parciau a mannau agored wedi trafod yr eitem yma ac ymweld a gwahanol ardaloedd. Ni fu ychwanegiadau i'r rhestr – y clerc i gysylltu a CSYM gyda'r map/rhestr.

The parks and open spaces committee discussed this item and visited different areas. There were no additions to the list - the clerk to contact the IACC with the map / list.

9 Dathliadau Jiwbili / Jubilee Celebrations

Cadarnhawyd bod 'beacon' wedi ei archebu ar gyfer ei osod ar y piar. Trafodwyd cyflwyno rhoddion i blant yr ysgol gynradd a'r cylch meithrin a chytuno ar fygiau cofrodd. Nododd y clerc ei bod wedi cael pris gan gwmni lleol yn Amlwch. Byddai posib i blant yr ysgol ddylunio logo i'w roi ar y myg drwy gystadleuaeth. Carys Davies i ofyn i'r ysgol i drefnu cystadleuaeth a chadarnhau niferoedd.

Bydd Dafydd Williams a Brian Potter yn trefnu goleuo'r beacon ac yn gyfrifol am ei leoli, diogelwch ac am baratoi asesiad risg.

Cytuno byddai aelodau yn trafod yn y gymuned i weld pa ddigwyddiadau oedd ar y gweill i ddathlu'r Jiwbili er mwyn cydlynnu eu hyrwyddo er budd y gymuned gyfan.

It was confirmed that a beacon had been ordered for installation on the pier. The presentation of gifts to primary school children and cylch meithrin was discussed with members agreeing to souvenir mugs. The clerk stated that she had obtained a quote from a local company in Amlwch. The school children could design a logo to put on the mug through a competition. Carys Davies to ask the school to organise a competition and confirm numbers.

Dafydd Williams and Brian Potter will arrange the lighting of the beacon and will be responsible for its location, safety and risk assessment.

Agreed that members would discuss in the community to see what events were planned to celebrate the Jubilee in order to co-ordinate their promotion for the benefit of the whole community.

10 System CCTV

Yn unol a'r polisi diogelu data, bu'r Cyngor gytuno bod Dafydd Williams a Brian Potter yn cael mynediad i'r system gyfredol i weld ac asesu beth oedd yn gweithio a beth oedd angen sylw. Cadarnhaodd Elfed Jones y byddai yn cysylltu a'r cwmni oedd wedi gosod y camerau gan nad oedd yn ymateb i geisiadau aelodau eraill.

In accordance with the data protection policy, the Council agreed that Dafydd Williams and Brian Potter have access to the current system to see and assess what was working and what needed to be addressed. Elfed Jones confirmed that he would contact the company that had installed the cameras as he was not responding to other members' requests.

11 Cyfryngau Cymdeithasol / Social-Media

Daw cais am dudalennau cyfryngau cymdeithasol. Bu gytuno i'r clerc gysylltu a chynghorau eraill ac Un Llais Cymru am gopiau o'u polisiau a gweithdrefnau cyfryngau cymdeithasol cyn symud ymlaen. Bu'r clerc atgoffa aelodau yn bod yn aelodau 'r cyngor drwy'r amser ac i feddwl dwywaith cyn rhannu neu ymateb i bethau ar lein.

A request for Council social media pages was considered. Agreed that the clerk contact other councils and One Voice Wales for copies of their social media policies and procedures before moving on. The clerk reminded members that they councillors at all times and to think twice before sharing or responding to things online.

12 Gohebiaeth/Correspondence

12.1 Nododd y clerc bod unrhyw ohebiaeth gyffredinol wedi'i hanfon at yr aelodau trwy e-bost wrth iddynt gael eu derbyn.

The clerk noted that any general correspondence had been sent to members by email as they were received.

12.2 Daw ebost gan gwmni lleol sydd yn bwriadu llogi offer ar gyfer gweithgareddau dwr o faes parcio pen draw'r traeth. Cytuno yn unfrydol ymateb, gyda copi i'r adran forwrol yn gofyn os oedd angen trwydded/ os oeddent wedi cofrestru, pwy fyddai'r gyfrifol am ac yn goruwchwylio'r defnyddwyr ac am gadarnhad bod offer diogelu bywyd hefyd yn rhan o'r fargen. Nid oedd gwrthwynebiad mewn egwyddor ond bod nifer o gwestiynnau i'w ateb. Nodwyd bod angen cadarnhad o ble oedd bwriad gweithredu gan fod y Maes Parcio yn cael ei reoli gan y Cyngor Cymuned a bod disgwyl i Caffi Bach dalu rhent i gael gweithredu yno.

An email comes from a local company intending to hire equipment for water activities from the far car park. Unanimously agree to respond, with a copy to the maritime department asking if a license was required / if registered, who would be responsible for and supervise the users and for confirmation that life protection equipment was also part of the deal. There was no objection in principle but there were a number of questions to answer. It was noted that confirmation was needed as to where distribution was intended as the Car Park was managed by the Community Council and Caffi Bach was expected to pay rent to operate there.

13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf drwy gynhadledd fideo – 19/4/2022
The next meeting will be held by video conference – 19/4/2022

Bu'r cyfarfod orffen am 8yh / *The meeting closed at 8pm*

Carys Davies
Is-Gadeirydd/Vice Chair
Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council